

POLISI IAITH GYMRAEG - WELSH LANGUAGE POLICY



Cyflwyniad

Rydym yn ymrwymedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb, cyn belled ag y medrwn wneud yn rhesymol. Ein huchelgais yw i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd ym mhob sefyllfa, heb eithriad.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd parhaol tuag at yr uchelgais hwn. Mae'r Polisi Iaith Gymraeg hwn yn datgan ein hymrwymadau presennol wrth ddefnyddio'r Gymraeg a hefyd, lle'n briodol, yn gosod targedau i ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg.

Dylid dehongli hyd a lled ein hymrwymadau yn y polisi hwn mewn ffordd resymol - maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru neu sydd wedi eu darparu i bobl sy'n byw yng Nghymru, a hefyd maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yr ydym yn medru eu rheoli neu ddylanwadu.

Cyfeiriwch unrhyw sylwadau neu gwynion am y polisi hwn at:

Jo Quinney, Q Marketing & PR Cyf, 7 Hill Street, Menai Bridge, Ynys Mon, LL59 5AG

Introduction

We are committed to treating Welsh and English on the basis of equality, so far as we are reasonably able to do so. Our ambition is to treat Welsh and English equally in every situation, without exception.

We will ensure that we make constant progress towards achieving this ambition, and this Welsh Language Policy sets out our current commitments in relation to using Welsh and also, where appropriate, sets targets to help us develop our use of Welsh.

The scope of our commitments in this policy should be interpreted reasonably - they are limited to activities and services in Wales or which are delivered to people living in Wales, and also limited to activities and services which we are able to control or influence.

Please direct any comments or complaints about this policy to:

Jo Quinney, Q Marketing & PR Ltd, 7 Hill Street, Menai Bridge, Anglesey, LL59 5AG

Ffôn: 07748 155 116 / 01248 715 611

E-bost: Jo@qmpr.co.uk

Mae'r polisi hwn yn ddyddiedig:

23 Mehefin 2011

Phone: 07748 155 116 / 01248 715 611

E-mail: Jo@qmpr.co.uk

This policy is dated:

23 June 2011

Delwedd Gyhoeddus

Arwyddion parhaol

Nid oes gennym unrhyw arwyddion parhaol ar hyn o bryd.

Byddwn yn cynnwys mwy o Gymraeg ar arwyddion parhaol ble mae'n rhesymol i ni wneud hynny.

Arwyddion dros dro

Nid oes gennym unrhyw arwyddion dros dro ar hyn o bryd.

Byddwn yn cynnwys mwy o Gymraeg ar arwyddion dros dro ble mae'n rhesymol i ni wneud hynny.

Brand Corfforaethol

Mae ein brand corfforaethol yn Saesneg yn unig.

Papur Pennawd

Mae ein papur pennawd yn Saesneg yn unig.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw bapur pennawd newydd yn cynnwys peth Cymraeg.

Cardiau Busnes

Mae ein cardiau busnes yn Saesneg yn unig.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gardiau busnes newydd yn cynnwys peth Cymraeg.

Public Image

Permanent Signs

We currently do not have any permanent signs.

We will use more Welsh on permanent signs wherever it is reasonable to do so

Temporary Signs

We currently do not have any temporary signs.

We will include more Welsh on temporary signs wherever it is reasonable to do so.

Corporate Brand

Our corporate brand is in English only.

Stationery

Our stationary is in English only.

We will ensure that any new stationery contain some Welsh.

Business Cards

Our business cards are in English only.

We will ensure that any new business cards contain some Welsh.

Gwefan a Gwasanaethau Digidol

Gwefan

Mae ein gwefan yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd.

Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg ar ein gwefan ble mae'n rhesymol i ni wneud hynny.

Hysbysebu a Marchnata

Hysbysebu trwy ddarlledu

Pan fyddwn yn hysbysebu (ar ran ein clientiaid) bydd ein hysbysebion darlledu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig ar S4C a radio cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn cynllunio ymgyrchoedd hysbysebu sydd wedi eu darlledu yng Nghymru er mwyn adlewyrchu'r ieithoedd a ddefnyddir gan y gynulleidfa darged.

Byddwn yn sicrhau bod ein hysbysebion darlledu newydd yn Gymraeg ar S4C a sianeli radio cyfrwng Cymraeg.

Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein hysbysebion darlledu ar S4C, radio cyfrwng Cymraeg a radio Cymreig lle bynnag mae'n rhesymol i wneud hynny.

Hysbysebu yn y Wasg Gymreig

Yn gyffredinol, mae ein hysbysebion yn uniaith Saesneg yn y wasg Gymreig.

Bydd ein hysbysebion yn Gymraeg, Saesneg neu yn ddwyieithog, yn ddibynnol ar iaith y gynulleidfa darged a chais ein clientiaid.

Deunydd Arddangos a Marchnata

Nid oes gennym unrhyw ddeunydd arddangos a marchnata ar hyn o bryd.

Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein deunydd arddangos a

Website and Digital Services

Website

Our website is currently in English only.

We will use more Welsh on our website wherever it is reasonable to do so.

Advertising and Marketing

Broadcast Advertising

When we advertise (on behalf of our clients) on S4C or Welsh medium radio, the language of our broadcast will be in Welsh or bilingual.

We design advertising campaigns broadcast in Wales to reflect the languages used by the target audience.

We will ensure that all new broadcast advertising campaigns are in Welsh on S4C and Welsh medium radio channels.

We will use more Welsh in our broadcast advertising on S4C, Welsh medium radio and Welsh radio wherever it is reasonable to do so.

Advertising in the Welsh Press

Generally, our advertising is in English only in the Welsh press.

Our advertising will be created in Welsh, English or bilingually as required by our clients and appropriate for the target audience.

Exhibition and Marketing Materials

We currently do not have any exhibition and marketing materials.

We will use more Welsh in our exhibition and marketing materials

marchnata lle bynnag y mae'n rhesymol i wneud hynny.

Negeseuon wedi eu recordio a Chyhoeddiadau Sain

Mae pob neges wedi ei recordio yn Saesneg yn unig.

Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau sain lle bynnag y mae'n rhesymol i wneud hynny.

Bydd ein gwasanaeth negeseuon yn ddwyieithog erbyn Hydref 2011.

Prisio, Derbynebau a Thocynnau

Mae ein prisiau, dyfynbris, derbynebau, tocynnau ac anfonebau yn Saesneg yn unig.

Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg ar ein prisiau, dyfynbris, derbynebau, tocynnau ac anfonebau lle bynnag y mae'n rhesymol i wneud hynny.

Cyfathrebu

Olrhain Dewis Iaith

Nid ydym yn cofnodi na olrhain dewis iaith ein cysylltiadau busnes ar hyn o bryd.

Ni fyddwn yn cadw cofnod ffurfiol o iaith ein cysylltiadau busnes ond gwyddom pwy yw ein cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb

Nid ydym yn gallu sicrhau gwasanaeth iaith Gymraeg, ond rydym yn croesawu defnydd o'r Gymraeg gan staff sy'n gallu gwneud hynny.

Rydym yn annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wisgo bathodyn *laith Gwaith* pan fyddant wrth eu gwaith.

Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau wyneb yn wyneb cyfrwng Cymraeg trwy ddefnyddio cynllun *laith Gwaith*.

wherever it is reasonable to do so.

Pre-recorded Messages and Audio Announcements

All our pre-recorded audio messages are in English only.

We will use more Welsh in our audio announcements wherever it is reasonable to do so.

Our messaging service will be bilingual by October 2011.

Pricing, Receipts and Ticketing

Our pricing, quotes, receipts, ticketing and invoicing are in English only.

We will use more Welsh on our pricing, quotes, receipts, ticketing and invoicing wherever it is reasonable to do so.

Communication

Tracking Language Choice

We currently do not record or track the language choice of any business contacts.

We do not keep a formal record of the language choice of our clients but we know who our Welsh speaking customers are.

Face to Face Communication

We cannot guarantee a Welsh language service but we welcome the use of Welsh by staff able to do so.

We encourage staff able to speak Welsh to wear a *Working Welsh* badge when they are at work.

We will promote our Welsh medium face to face services by using the *Working Welsh* badge scheme.

Cyfathrebu dros y Ffôn

Rydym yn ateb galwadau ffôn â chyfarchiad dwyieithog – gydag enw'n unig.

Mae pob aelod o staff yn gallu adnabod a derbyn galwad yn Gymraeg gyda chwarteisi.

Nid oes gennym yr adnoddau staff i ddelio â galwadau yn y Gymraeg ar hyn o bryd.

Gohebiaeth (Papur ac Electronig)

Yn gyffredinol, rydym yn ysgrifennu at bobl yn ddwyieithog neu yn eu dewis iaith.

Rydym yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Rydym wastad yn ateb yn Gymraeg i lythyrau a dderbyniwyd yn Gymraeg neu pan fydd rhywun yn gofyn i ni wneud hynny.

Ffurflenni a Dogfennau Cyfrif

Mae ein ffurflenni a'n dogfennau cyfrif yn Saesneg yn unig.

Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein ffurflenni a'n dogfennau cyfrif lle bynnag y mae'n rhesymol i wneud hynny.

Staff a'r Gweithle

Rydym yn adnabod a gwerthfawrogi'r gallu i siarad Cymraeg fel sgil sydd yn ddefnyddiol wrth weithio yng Nghymru.

Cyfathrebu Mewnol

Mae rhyddid i bob aelod o staff siarad Cymraeg o fewn y gweithle a disgwyliwn i staff barchu dewisiadau ieithyddol eu cydweithwyr.

Telephone Communication

We answer calls with a bilingual greeting – name only.

Every member of staff is able to recognise and handle a Welsh language call with courtesy.

We do not have the staffing resources to deal with telephone calls in Welsh at present.

Correspondence (Paper and Electronic)

We generally write to people bilingually or in their preferred language.

We accept correspondence in Welsh or English.

We always reply in Welsh when we are replying to letters received in Welsh or when we have received a request to do so.

Forms and Account documents

Our forms and account documents are in English only.

We will use more Welsh in our forms and account documents wherever it is reasonable to do so.

Staff and the Workplace

We recognise and appreciate the ability to speak Welsh as a skill which is useful when working in Wales.

Internal Communication

Every member of staff has the freedom to speak Welsh within the workplace and we expect staff to respect the linguistic preferences of their colleagues.

Arweiniad

Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gefnogi ar y lefel uchaf o fewn ein sefydliad.

Ymwybyddiaeth

Bydd y polisi hwn ar gael yn gyfleus i'r cyhoedd ei ddarllen.

Adolygu

Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol.

Mae'r Polisi Iaith Gymraeg hwn wedi ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gael ei achredu a byddwn yn paratoi adroddiadau monitro blynyddol ar ei weithrediad.

Gwasanaethau wedi eu darparu ar ein rhan

Lle bo'n briodol, byddwn yn gosod amodau ieithyddol mewn cytundebau trydydd parti.

Leadership

We will ensure that this policy is supported at the highest level in our organisation.

Awareness

This policy will be conveniently available for the public to read.

Review

We will assess and revise this policy every year.

This Welsh Language Policy will be presented to the Welsh Language Board for accreditation and we will prepare annual monitoring reports on its implementation.

Services delivered on our behalf

Where appropriate, we will include conditions relating to the use in our third party contracts.

Ymwadiad

Defnyddiwyd templed Bwrdd yr Iaith Gymraeg i lunio'r polisi iaith. Serch hynny, nid yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyfrifol am arolygu safon ein darpariaeth yn Gymraeg a dylid cyfeirio pob ymholiad am weithrediad y polisi at y cyfeiriad a nodir ar y dudalen flaen.

Disclaimer

The Welsh Language Board's template was used to compile this Welsh Language Policy. However, the Welsh Language Board is not responsible for monitoring the standard of our Welsh medium provision. Any enquiries regarding the implementation of this policy should be directed to us at the address given on the front page.